# Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**2016 dccc 2**

**RHAN 6**

GWEITHWYR GOFAL CYMDEITHASOL: ADDASRWYDD I YMARFER

**PENNOD 4**

GORCHMYNION INTERIM AC ADOLYGU GORCHMYNION INTERIM

### 146 Adolygiadau o orchmynion interim: amseriad

(1) Rhaid i banel adolygu'n gyntaf orchymyn interim a wneir o dan adran 144 o fewn chwe mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn.

(2) Pan fo gorchymyn interim a wneir o dan adran 144 wedi ei amrywio neu ei amnewid gan y tribiwnlys ar apêl o dan adran 145, mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at y dyddiad y gwnaed y gorchymyn i'w ddarllen fel cyfeiriad at ddyddiad penderfyniad y tribiwnlys.

(3) Mae is-adran (4) yn nodi amseriad yr adolygiad cyntaf o orchymyn interim ar ôl i'r tribiwnlys ei estyn neu ei estyn ymhellach (gweler adran 148), ac ystyr "penderfyniad y tribiwnlys" yw'r penderfyniad i estyn y gorchymyn neu i estyn y gorchymyn ymhellach (yn ôl y digwydd).

(4) Rhaid i banel adolygu'r gorchymyn interim—

- (a) os nad oedd unrhyw adolygiad o'r gorchymyn wedi digwydd cyn penderfyniad y tribiwnlys, o fewn chwe mis sy'n dechrau â dyddiad penderfyniad y tribiwnlys, neu
- (b) os oedd adolygiad o'r gorchymyn wedi digwydd cyn penderfyniad y tribiwnlys, o fewn tri mis sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/04/2017.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 146. (See end of Document for details)*

(5) Mae is-adran (6) yn nodi amseriad yr adolygiad cyntaf o orchymyn cofrestru amodol interim amnewidiol neu orchymyn atal dros dro interim amnewidiol yn sgil adolygiad ("y gorchymyn amnewidiol") (gweler adran 147(1)(c) a (d)).

(6) Rhaid i banel adolygu'r gorchymyn amnewidiol—

(a) os nad oedd unrhyw adolygiad o'r gorchymyn sydd wedi ei amnewid wedi digwydd cyn yr adolygiad a arweiniodd at wneud y gorchymyn amnewidiol, o fewn chwe mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn amnewidiol, neu

(b) os oedd adolygiad o'r gorchymyn sydd wedi ei amnewid wedi digwydd cyn yr adolygiad a arweiniodd at wneud y gorchymyn amnewidiol, o fewn tri mis sy'n dechrau â'r dyddiad y gwnaed y gorchymyn amnewidiol.

(7) Ar ôl yr adolygiad cyntaf o orchymyn interim o dan is-adran (1), (4) neu (6), rhaid i banel adolygu'r gorchymyn (am gyhyd ag y mae mewn grym)—

(a) o fewn chwe mis sy'n dechrau â dyddiad penderfyniad yr adolygiad diweddaraf, neu

(b) os yw'r person cofrestredig yn gofyn am adolygiad cynharach ar ôl diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â'r dyddiad hwnnw, cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

(8) Caiff panel adolygu gorchymyn interim ar unrhyw adeg os daw tystiolaeth newydd ar gael sy'n berthnasol i'r achos.

(9) Mewn is-adrannau (7) ac (8), mae cyfeiriad at orchymyn interim yn cynnwys cyfeiriad at—

(a) gorchymyn interim fel y'i hestynnir neu fel y'i hestynnir ymhellach gan y tribiwnlys,

(b) gorchymyn interim fel y'i hamrywir yn sgil adolygiad (gweler adran 147(1)(b)), ac

(c) gorchymyn cofrestru amodol interim amnewidiol neu orchymyn atal dros dro interim amnewidiol a wneir yn sgil adolygiad.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 146 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 188(1)**

**I2** A. 146 mewn grym ar 3.4.2017 gan O.S. 2017/309, **ergl. 2(e)** (ynghyd ag erglau. 3, 4, Atod.)

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/04/2017.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Adran 146.